**Atodiad 3 – Gwerthusiad Opsiynau**

| | | | | ***Opsiynau isod wedi eu hychwanegu yn dilyn yr ymgynghoriad*** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** | **Opsiwn 3** | **Opsiwn 4** | **Opsiwn 5** |
| | **Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog** | **Trosglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Bontnewydd** | **Rhannu dalgylch Felinwnda yn ôl lleoliad y tai sydd yn ddaearyddol agosaf i Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd** | ***Gosod y cyfan o dalgylch Felinwnda o fewn dalgylchoedd Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd*** | ***Defnyddio mynediad diogel i lôn las fel ffin dalgylch Bontnewydd yn ffordd amgen i feddwl am ddalgylch modern i gyd-fynd ac amcanion yr ysgol newydd. Gan ddefnyddio'r ffordd newydd A487 fel ffin yn ffordd glir i egluro ffiniau dalgylch.*** |
| **Y Dalgylch** | Galluogi i holl ddysgwyr dalgylch Felinwnda aros gyda'i gilydd, yn ddarostyngedig i ddewis rhieni. | Galluogi i holl ddysgwyr dalgylch Felinwnda aros gyda'i gilydd, yn ddarostyngedig i ddewis rhieni. | Yn ddarostyngedig i ddewis rhieni, gallai'r opswin yma'n arwain at rannu dysgwyr dalgylch Felinwnda. | Galluogi i holl ddysgwyr dalgylch Felinwnda aros gyda'i gilydd, yn ddarostyngedig i ddewis rhieni. | Yn ddarostyngedig i ddewis rhieni, gallai'r opswin yma'n arwain at rannu dysgwyr dalgylch Felinwnda. |
| **Capasiti'r ysgolion amgen** | Rhagwelir y bydd capasiti digonol yn Ysgol Llandwrog i dderbyn dysgwyr newydd/ychwanegol o ddalgylch Ysgol Felinwnda. | Rhagwelir y bydd capasiti digonol yn Ysgol Bontnewydd i dderbyn dysgwyr newydd/ychwanegol o ddalgylch Ysgol Felinwnda. | Rhagwelir y bydd capasiti digonol yn Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd i dderbyn dysgwyr newydd/ychwanegol o ddalgylch Felinwnda. | Rhagwelir y bydd capasiti digonol yn Ysgol Bontnewydd ac Ysgol Llandwrog i dderbyn dysgwyr newydd/ychwanegol o ddalgylch Ysgol Felinwnda | Rhagwelir y bydd capasiti digonol yn Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd i dderbyn dysgwyr newydd/ychwanegol o ddalgylch Felinwnda. |
| **Ysgolion y mae plant dalgylch Ysgol Felinwnda eisoes yn mynychu** | Dim ond 25% o ddysgwyr yr ardal sydd eisoes yn dewis mynychu Ysgol Llandwrog. Ni fyddai'r opsiwn yma'n cyd-fynd a dewis presennol mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda. | Mae 57% o ddysgwyr yr ardal eisoes dewis yn mynychu Ysgol Bontnewydd. Byddai'r opsiwn yma'n cyd-fynd a dewis presennol mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Felinwnda. | Mae nifer o ddysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Llandwrog (25%) ac Ysgol Bontnewydd (57%). | Mae nifer o ddysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Llandwrog (25%) ac Ysgol Bontnewydd (57%). | Mae nifer o ddysgwyr dalgylch Felinwnda eisoes yn mynychu Ysgol Llandwrog (25%) ac Ysgol Bontnewydd (57%). |
| **Ffactorau Daearyddol** | Mae Ysgol Llandwrog wedi ei lleoli'n agosach i 36% o dai dalgylch Felinwnda nag unrhyw ysgol arall. | Mae Ysgol Bontnewydd wedi ei lleoli yn agosach i 62% o dai dalgylch Felinwnda nag unrhyw ysgol arall | Mae Ysgol Bontnewydd yn agosach i 62% o dai dalgylch Felinwnda nag unrhyw ysgol arall. | Mae Ysgol Bontnewydd yn agosach i 62% o dai dalgylch Felinwnda nag unrhyw ysgol arall. | Mae Ysgol Bontnewydd yn agosach i 62% o dai dalgylch Felinwnda nag unrhyw ysgol arall. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae Ysgol Llandwrog yn agosach i 36% o dai dalgylch Felinwnda nag unrhyw ysgol arall. Mi fyddai'r opsiwn yma'n golygu fod y dalgylch wedi ei rhannu yn ôl y tai sydd daearyddol agosaf at yr ysgolion dan sylw. | Mae Ysgol Llandwrog yn agosach i 36% o dai dalgylch Felinwnda nag unrhyw ysgol arall. | Mae Ysgol Llandwrog yn agosach i 36% o dai dalgylch Felinwnda nag unrhyw ysgol arall. Ni fyddai'r opsiwn yma'n rhannu'r dalgylch yn ôl y tai sydd yn ddaearyddol agosaf at yr ysgolion dan sylw. |
| **Teithio**<br><br>(Yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd byddai angen cynnig cludiant i ddysgwyr sy'n byw dros 2 filltir o'r ysgol ddalgylch neu os yw llwybrau cerdded i'r ysgol yn beryglus) | Ar sail dysgwyr oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), ac yn sgil y ffaith nad oes llwybr cerdded diogel i ddysgwyr dalgylch Felinwnda gyrraedd Ysgol Llandwrog, byddai angen cynnig cludiant i holl ddysgwyr y dalgylch. Rhagwelir costau cludiant o oddeutu £78,000 y flwyddyn yn deillio o weithredu'r cynnig yma. Golyga hyn fod costau cludiant uwch ynghlwm â throsglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i ddalgylch Ysgol Llandwrog (o'i gymharu ag opswin 2 a 3). | Ar sail dysgwyr oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), ac yn sgil y ffaith nad oes llwybr cerdded addas i ddysgwyr dalgylch Felinwnda gyrraedd Ysgol Bontnewydd. Rhagwelir y byddai costau cludiant o oddeutu £55,000 y flwyddyn yn deillio o weithredu'r opsiwn yma. Golyga hyn fod costau cludiant is ynghlwm â throsglwyddo dalgylch Felinwnda yn ei gyfanrwydd i Ysgol Bontnewydd o'i gymharu a'r opsiynau amgen, (ac eithrio Opsiwn 3). | Ar sail dysgwyr oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), ac yn sgil y ffaith nad oes llwybr cerdded addas i ddysgwyr dalgylch Felinwnda gyrraedd Ysgol Bontnewydd nac Ysgol Llandwrog, rhagwelir y byddai costau cludiant o oddeutu £55,000 y flwyddyn yn deillio o weithredu'r opsiwn yma. Golyga hyn fod costau cludiant is ynghlwm â gweithredu'r opsiwn yma o'i gymharu a'r opsiynau amgen, (ac eithrio Opsiwn 2). | Ar sail dysgwyr oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), ac yn sgil y ffaith nad oes llwybr cerdded addas i ddysgwyr dalgylch Felinwnda gyrraedd Ysgol Bontnewydd nac Ysgol Llandwrog, rhagwelir y byddai costau cludiant o oddeutu £90,000 y flwyddyn yn deillio o weithredu'r opsiwn yma. Golyga hyn fod costau cludiant uwch ynghlwm â gweithredu'r opsiwn yma (o'i gymharu ag opsiwn 2 a 3). | Ar sail dysgwyr oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Felinwnda ar hyn o bryd (Ionawr 2025), ac yn sgil y ffaith nad oes llwybr cerdded addas i ddysgwyr dalgylch Felinwnda gyrraedd Ysgol Bontnewydd nac Ysgol Llandwrog, rhagwelir y byddai costau cludiant o oddeutu £78,000 y flwyddyn yn deillio o weithredu'r opsiwn yma. Golyga hyn fod costau cludiant uwch ynghlwm â gweithredu'r opsiwn yma (o'i gymharu ag opsiwn 2 a 3). |
| **Y Gymuned** | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned na ragwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar y | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned na ragwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar y | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned na ragwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar y | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned na ragwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar y | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned na ragwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gymuned. Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda ac mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yn cael effaith ar hyn. Gan fod nifer o rieni plant dalgylch Felinwnda eisoes yn dewis danfon eu plant i Ysgol Llandwrog, ni ragwelir y byddai teuluoedd â phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei gweithredu. | gymuned. Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda ac mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yn cael effaith ar hyn. Gan fod nifer o rieni plant dalgylch Felinwnda eisoes yn dewis danfon eu plant i Ysgol Bontnewydd, ni ragwelir y byddai teuluoedd â phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei gweithredu. | gymuned. Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda ac mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yn cael effaith ar hyn. Gan fod nifer o rieni plant dalgylch Felinwnda eisoes yn dewis danfon eu plant i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, ni ragwelir y byddai teuluoedd â phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei gweithredu. | gymuned. Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda ac mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yn cael effaith ar hyn. Gan fod nifer o rieni plant dalgylch Felinwnda eisoes yn dewis danfon eu plant i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, ni ragwelir y byddai teuluoedd â phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei gweithredu. | gymuned. Lleolir Cylch Meithrin yng Nghanolfan Bro Llanwnda ac mae nifer o ddigwyddiadau eraill hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yn cael effaith ar hyn. Gan fod nifer o rieni plant dalgylch Felinwnda eisoes yn dewis danfon eu plant i Ysgol Bontnewydd neu Ysgol Llandwrog, ni ragwelir y byddai teuluoedd â phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei gweithredu. |
| **Y Gymraeg** | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar yr iaith Gymraeg na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith negyddol ar yr iaith gan fod Ysgol Llandwrog yn dilyn 'Polisi Iaith Addysg Gwynedd' yn yr un modd â phob ysgol arall. Yn yr un modd â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd (namyn un), ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 yw Ysgol Llandwrog. | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar yr iaith Gymraeg na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith negyddol ar yr iaith gan fod Ysgol Bontnewydd yn dilyn 'Polisi Iaith Addysg Gwynedd' yn yr un modd â phob ysgol arall. Yn yr un modd â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd (namyn un), ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 yw Ysgol Bontnewydd. | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar yr iaith Gymraeg na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith negyddol ar yr iaith gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn dilyn 'Polisi Iaith Addysg Gwynedd' yn yr un modd â phob ysgol arall. Yn yr un modd â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd (namyn un), ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 yw Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd. | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar yr iaith Gymraeg na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith negyddol ar yr iaith gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn dilyn 'Polisi Iaith Addysg Gwynedd' yn yr un modd â phob ysgol arall. Yn yr un modd â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd (namyn un), ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 yw Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd. | Dengys yr asesiad o'r effaith tebygol ar yr iaith Gymraeg na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith negyddol ar yr iaith gan fod Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd yn dilyn 'Polisi Iaith Addysg Gwynedd' yn yr un modd â phob ysgol arall. Yn yr un modd â phob ysgol gynradd yng Ngwynedd (namyn un), ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3 yw Ysgol Llandwrog ac Ysgol Bontnewydd. |
| **Argymhelliad** | **DIYSTYRU** | **FFAFRIO** | **DIYSTYRU** | **DIYSTYRU** | **DIYSTYRU** |